# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 24 Tachwedd 2015

Amser: 08.30 - 08.50

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | David Melding (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Siân Wilkins (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Llywydd.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015 –**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

**Dydd Mercher 13 Ionawr 2016 –**

- Bil Cymru drafft (180 munud)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ail-amserlennu'r eitem ganlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015 –**

- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)~~ – *i'w aildrefnu ar gyfer 27 Ionawr 2016*

### 3.4 Dadl Aelod Unigol: Dewis y Cynnig ar gyfer y Ddadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes y ddau gynnig a gyflwynwyd ar gyfer y ddadl.

**Dydd Mercher 2 Rhagfyr 2015**

- **NNDM5881**
  **David Rees (Aberafan)**
  **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**
  **Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

  Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

  1. Yn cydnabod pwysigrwydd cynhyrchu dur i economi Cymru.

  2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

  a) barhau i wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi'r diwydiant dur yn ystod y cyfnod anodd hwn; a

  b) chymryd camau brys ar nifer o feysydd, gan gynnwys mynd i'r afael â'r costau ynni uchel a wynebir gan y diwydiannau ynni dwys yng Nghymru, megis y diwydiant dur, er mwyn sicrhau y gallant gystadlu yn erbyn cynhyrchwyr Ewropeaidd eraill o fewn marchnad fyd-eang.

**Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015**

- **NNDM5885**

**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**
**Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**
**Eluned Parrott (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod gwerth y celfyddydau a chreadigrwydd i addysg a datblygiad ein pobl ifanc, gan ddarparu profiad cyfoethog yn eu rhinwedd eu hunain, ond gan hefyd helpu i wella gallu plant i ganolbwyntio, gan ysgogi eu dychymyg a'u creadigrwydd, adeiladu hyder, codi dyheadau a rhoi gwell dealltwriaeth o bobl eraill iddynt a gwell empathi ar gyfer pobl eraill;

2. Yn nodi â phryder bod cyfyngiadau ar gyllidebau awdurdodau lleol dros y degawd diwethaf wedi rhoi pwysau cynyddol ar wasanaethau cerddorol anstatudol;

3. Yn nodi casgliad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru fod yr heriau allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru yn cynnwys yr anghyfartalwch yn y ddarpariaeth bresennol a'r anghydraddoldeb o ran cyfleoedd i gael mynediad at wasanaethau; ac

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar addysg gerddorol fel bod pob plentyn yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau cerddorol, i leihau rhwystrau ariannol i gael mynediad at y gwasanaethau hyn ac i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu cynnal er gwaethaf gostyngiadau mewn cyllidebau awdurdodau lleol ac ysgolion.

### 3.5 Craffu ar Fil Cymru drafft

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes bapur yn nodi'r opsiynau posibl ar gyfer craffu ar Fil Cymru drafft yn y Cyfarfod Llawn. Penderfynodd y Rheolwyr Busnes gyflwyno dadl 3 awr yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 13 Ionawr a dychwelyd at y mater eto yr wythnos nesaf i benderfynu ar strwythur y ddadl.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil yr Undebau Llafur

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Cymru.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn dydd Iau 21 Ionawr 2016 er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 26 Ionawr 2016.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Rhoddodd y Pwyllgor Busnes ystyriaeth bellach i'r cais gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ymestyn ei derfyn amser adrodd ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) o ddydd Gwener 27 Tachwedd 2015 i 11 Rhagfyr 2015. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ddychwelyd at y mater yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddydd Mercher pe bai angen mwy o amser ar y pwyllgor.